

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Arfon Wyn (Is-gadeirydd)

Yr Awdurdod Addysg

Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Dylan Rees

Yr Enwadau Crefyddol

Mrs Elaine Green (Yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru)
Mr Edward Morus Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)
Mrs Collette Owens (Yr Eglwys Gatholig)
Y Parch. Deborah Stammers (Undeb Bedyddwyr
Cymru)

Cynrychiolwyr Athrawon

Mrs Manon Morris-Williams (Ysgol Santes Dwynwen)

WRTH LAW: Mr Owen T Davies (Uwch Reolwr Cynradd, Addysg)
(Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y CYSAG)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)

YMDDIHEURIADAU: Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones,
Amlwch)
Y Parch. Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru)
Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig)
Mr Marc Berw Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a
Phobl Ifanc)
Miss Bethan James (Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant,
GwE)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Douglas Fowlie wedi sefyll i lawr fel aelod o'r CYSAG a diolchodd iddo am ei waith fel aelod o'r Pwyllgor. Dywedodd fod enwebiadau'n cael eu gwahodd ar hyn o bryd i lenwi'r swydd wag.

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf y CYSAG, a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi o'r cofnodion:-

- Mewn ymateb i gais y CYSAG i gymryd rhan mewn teithiau dysgu mewn ysgolion, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Cynradd ei fod wedi trafod cynnig y CYSAG gyda Chadeirydd Fforwm Strategol y Penaethiaid. Dywedodd fod y Fforwm yn disgwyl am ymateb ynglŷn â disgwyliadau'r CYSAG o ran y teithiau dysgu. Nodwyd y bydd sylwadau'r CYSAG, ar ôl iddynt ymgynghori ar y mater, yn cael eu cyflwyno i Gadeirydd y Fforwm Strategol, er mwyn diweddarau ysgolion ynglŷn â natur ymweliadau ysgol arfaethedig y CYSAG.

Cynigiwyd y dylid trafod teithiau dysgu mewn sesiwn anffurfiol yn dilyn y cyfarfod ffurfiol heddiw, a derbyniodd y CYSAG y cynnig hwnnw.

PENDERFYNWYD y byddai'r Uwch Reolwr Cynradd yn cyflwyno sylwadau'r CYSAG i Gadeirydd Fforwm Strategol y Penaethiaid.

- Mewn perthynas â Chyfansoddiad y CYSAG, cadarnhawyd fod cais wedi'i wneud am gyngor cyfreithiol ac mae'r mater yn parhau i dderbyn sylw. Cyflwynir adroddiad diweddarau yng nghyfarfod nesaf y CYSAG ar 15 Chwefror 2024.
- Nodwyd fod GwE yn addasu ei holiadur Dyniaethau ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ddsbarthu i ysgolion Môn cyn y Nadolig.

PENDERFYNWYD y byddai'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (GwE) yn rhoi diweddariad ar ganlyniadau'r holiadur yng nghyfarfod nesaf y CYSAG.

- Mewn perthynas â phryderon CYSAG ynglŷn â therminoleg mewn adroddiadau Estyn, dywedodd yr Uwch Reolwr Cynradd y byddai'n codi unrhyw faterion pellach gydag Estyn yn y dyfodol.

3. DIWEDDARIAD CYMDEITHAS CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)

Dywedodd yr Uwch Reolwr Cynradd ei fod wedi mynychu cyfarfod rhithiol CCYSAGauC ar 25 Hydref 2023. Dywedodd fod sawl eitem ar y rhaglen yn ymwneud â'r datblygiadau sy'n mynd rhagddynt mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru.

Nodwyd y bydd cofnodion drafft y cyfarfod yn cael eu cyflwyno, er gwybodaeth, yng nghyfarfod nesaf y CYSAG ar 15 Chwefror 2024.

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod CCYSAGauC a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023 er gwybodaeth, a chawsant eu nodi.

4. YSGOL SANTES DWYNWEN – LLYTHRENNEDD TRWY GYFRWNG CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

Cafwyd cyflwyniad ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn Ysgol Santes Dwynwen ar llythrennedd trwy gyfrwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Disgrifiodd sut mae 3 sgil llythrennedd – gwrando/siarad ar lafar, darllen ac ysgrifennu – yn cael eu hymgorffori mewn addoli ar y cyd, a sut mae'r plant yn cymryd rhan trwy ddilyn stori, gwrando, edrych ar luniau, darllen a dilyn y geiriau.

Dywedodd yr athrawes fod gwasanaethau addoli ar y cyd wythnosol yn cael eu rhannu'n uniongyrchol gyda'r plant yn eu cartrefi yn ystod y cyfnod clo, gan ddefnyddio'r system 'SeeSaw'. Roedd hi'n dewis emyn, gan arddangos y geiriau ar y sgrin, a byddai'r plant yn dysgu canu emyn trwy ddilyn cyfres o sleidiau.

Ar ôl i'r plant ddychwelyd i'r ysgol, roedd y trefniant hwn yn parhau yn yr ystafell ddosbarth a chafodd ei ymestyn i gynnwys tasgau a gweithgareddau ar gyfer y disgyblion fel dilyniant i'r addoli ar y cyd. Roedd y tasgau'n cynnwys pynciau trafod i ddatblygu sgiliau'r disgyblion, clipiau fideo i ddatblygu eu sgiliau gwrando, ysgrifennu llythyr neu weddi, neu ymchwilio mewn llyfrau neu ar-lein i ddatblygu eu sgiliau darllen. Byddai'r plant hefyd yn goleuo kannwyll yn ystod y gwasanaeth er mwyn myfyrio a meddwl am berson arbennig, gan ddweud gweddi bersonol ar gyfer y person hwnnw cyn diffodd y gannwyll.

Dywedodd yr athrawes fod yr ysgol wedi bod yn gweithio ar waith Ms Bethan James yn ddiweddar, ar gamau cynnydd o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel rhan o'r cwricwlwm, trwy ofyn cwestiynau; recordio a gwrando ar wybodaeth; dadansoddi ac arfarnu tystiolaeth, dod i gasgliad a chyflwyno tystiolaeth.

Diolchodd y Cadeirydd ac aelodau'r CYSAG i Mrs Morris-Williams am ei chyflwyniad ardderchog ar waith yr ysgol mewn perthynas â chrefydd a Christnogaeth.

PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad a'r gwaith ardderchog y mae Ysgol Santes Dwynwen yn ei wneud.

5. TEITHIAU DYSGU (UWCHRADD)

Trafodwyd yr eitem hon mewn cyfarfod anffurfiol yn dilyn y cyfarfod ffurfiol heddiw.

6. RHESTRAU CHWARAE – CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

Dywedodd yr Uwch Reolwr Cynradd fod Hwb a Llywodraeth Cymru wedi creu Rhestrau Chwarae, sef sleidiau rhyngweithiol ar lwyfan Hwb ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac maent yn adnoddau ardderchog ar gyfer ysgolion. Dywedodd fod CCYSAGauC, GwE a rhanddeiliaid eraill wedi cyfrannu at y maes hwn trwy greu a rhannu adnoddau i gyd-fynd â'r Rhestrau Chwarae.

PENDERFYNWYD y byddai'r Uwch Reolwr Cynradd yn rhoi diweddariad

ar y Rhestrau Chwarae yng nghyfarfod nesaf y CYSAG.

7. LLEOLIADAU CREFYDDOL AC YSBRYDOL AR YNYS MÔN

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi gofyn am farn yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (GwE) a'r Uwch Reolwr Cynradd ynghylch creu hwb i ganiatáu i athrawon a disgyblion gael mynediad at wybodaeth am leoliadau crefyddol ac ysbrydol ar Ynys Môn. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd am farn aelodau'r CYSAG ynglŷn â chreu hwb.

Awgrymodd yr Uwch Reolwr Cynradd fod y CYSAG yn edrych ar wahanol adeiladau a lleoliadau sy'n gysylltiedig â chrefydd, neu leoliadau ysbrydol, y gellid eu cynnwys er mwyn eu trafod yng nghyfarfodydd y CYSAG. Dywedodd y byddai'n hapus i arwain ar y pwnc hwn a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf ddigidol ar y safle micro er mwyn ei rannu gydag ysgolion.

Nodwyd fod Prosiect Pererin yr Eglwys yng Nghymru wedi penodi aelod newydd o staff a bydd yn creu adnoddau ar gyfer ysgolion Môn, a byddant ar gael i'r CYSAG maes o law.

Croesawodd y CYSAG y cynnig i blant ymweld â lleoliadau crefyddol er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth ynglŷn ag ymweld â lleoedd sanctaidd. Roedd y CYSAG yn pryderu am y dirywiad mewn ysgolion o ran dathlu diolchgarwch ac roedd yn teimlo bod angen pwysleisio pwysigrwydd diolchgarwch mewn ysgolion.

Dywedodd yr athrawes gynradd y byddai angen cynllunio'n ofalus i hwyluso ymweliadau â lleoliadau crefyddol a byddai angen cynnwys pobl sydd â gwybodaeth leol. Dywedodd y byddai rhestr o bersonau cyswllt ar gyfer lleoliadau crefyddol yn ddefnyddiol hefyd, er mwyn i ysgolion wybod gyda phwy i gysylltu cyn ymweld. Nodwyd y gallai ymweliad ag eglwys neu gapel bontio'r sbectrwm ar ffurf ddigidol, e.e., hanes, celf ac ati, y gall pobl leol, sydd â mynediad at wybodaeth ynglŷn â lleoliadau crefyddol ar-lein, ei rannu.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar sut y gellir casglu adnoddau o wahanol ardaloedd ar yr Ynys er mwyn eu rhannu gydag ysgolion. Codwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- A fyddai modd i'r CYSAG ddarparu gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer lleoliadau crefyddol ym mhob ardal benodol ar Ynys Môn a gynrychiolir ganddynt?
- Awgrymwyd y dylai'r Uwch Reolwr Cynradd gysylltu â'r Adain Archifau yn Llangefni i ganfod ym mha ffordd y gallant gynorthwyo'r CYSAG trwy ddarparu gwybodaeth ac adnoddau ynglŷn ag adeiladau crefyddol ar Ynys Môn.
- Cynigiodd aelod Eglwys o'r CYSAG gynnal ymweliadau yn ei chapel yng Nghaergybi. Dywedodd y gallai ddarparu rhestr i aelodau o gysylltiadau ar gyfer capeli/eglwysi enwadau crefyddol eraill yn yr ardal.
- Awgrymwyd fod y CYSAG yn gwahodd aelod o'r Prosiect Pererin i gyfarfod nesaf y CYSAG i roi trosolwg o'i gwaith.

PENDERFYNWYD y byddai'r Uwch Reolwr Cynradd yn:-

- **Casglu gwybodaeth a dderbyniwyd ar leoliadau crefyddol gan aelodau ac unigolion perthnasol eraill.**
- **Gwahodd aelod o'r Prosiect Pererin i ddarparu diweddariad ar ei gwaith wrth baratoi adnoddau ar gyfer ysgolion.**
- **Cysylltu â'r Gwasanaeth Archifau a Llyfrgelloedd i drafod pa adnoddau sydd ar gael i ysgolion am leoliadau crefyddol.**

8. DIWEDDARIAD GAN Y CYFARWYDDWR

Trafodwyd yr eitem hon gan yr Uwch Reolwr Cynradd o dan Eitem 2 ar y rhaglen.

9. UNRHYW EITEMAU ERAILL

Dywedodd y Cadeirydd ei bod, fel rhan o'i swydd tu allan i'r Cyngor, yn cysylltua g ysgolion i ofyn a fyddent yn fodlon cymryd rhan mewn ymgyrch Calendr Adfent o chwith. Dywedodd mai syniad Calendr o chwith yw ein bod ni'n rhoi yn hytrach na derbyn. Apeliodd ar bobl i feddwl am eraill a chyfrannu at fanciau bwyd lleol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

10. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd cyfarfod nesaf y CYSAG yn cael ei gynnal ddydd Mercher, 15 Chwefror 2024 am 2:00pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:15 pm

**Y CYNGHORYDD NON DAFYDD
CADEIRYDD**